

Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029

Ein gweledigaeth ar gyfer treftadaeth

Cyflwyniad

Yn 2023 mlynedd fe wnaethom ddisgrifio ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033, i fuddsoddi £3.6biliwn biliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, lleoedd a chymunedau. Cynlluniwyd ein dull hirdymor i ganiatáu i ni ymateb i fyd sy'n newid a chefnogi cymunedau ledled y DU i gysylltu â'u treftadaeth. Fe wnaethom ymrwymo i gyhoeddi cynlluniau cyflwyno tair blynedd i amlinellu sut y byddem yn gwneud hyn. Dyma ein hail gynllun cyflwyno, a fydd yn arwain ein gwaith rhwng 2026 a 2029.

Treftadaeth 2033 – y tair blynedd gyntaf

Yn ystod tair blynedd gyntaf Treftadaeth 2033 fe wnaethom:

- gyflwyno Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi'u symleiddio gan gefnogi ystod eang o brosiectau treftadaeth sy'n adlewyrchu ein pedair egwyddor fuddsoddi
- cyflwyno trothwy grant uwch o £10miliwn, gan alluogi buddsoddi ar raddfa fwy mewn prosiectau treftadaeth trawsnewidiol
- cefnogi 1,750 o brosiectau gyda buddsoddiad o £885m
- lansio pum menter strategol newydd gyda'r nod o fynd i'r afael â heriau treftadaeth hirdymor ar raddfa fawr, gan gynnwys:
 - Treftadleoedd: buddsoddi £200m dros 10 mlynedd i hybu balchder bro a chysylltiad â threftadaeth
 - Cysylltiadau Tirwedd: £150m dros 10 mlynedd ar gyfer y tirweddau a drysorir fwyaf yn y DU
 - Trefi a Dinasoedd Natur: partneriaeth newydd a £15m o ariannu i wella mannau gwyrdd trefol
 - Addoldai: buddsoddi o leiaf £15m ar brosiectau strategol i achub treftadaeth mewn angen ar gyfer cymunedau ar draws y DU
- Dathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed a'i heffaith anhygoel ar fywyd a threftadaeth ar draws y DU

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflwyno uchelgeisiau ein pedair egwyddor fuddsoddi: achub treftadaeth; diogelu'r amgylchedd;

cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad; a chynladwyedd sefydliadol.

Yng nghyfnod cyflwyno cyntaf (2023–2026) ein strategaeth, fe wnaethom lansio proses Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol newydd, symlach, gan gefnogi 4,125 o geisiadau grant o bob cwr o'r DU. Rydym wedi ymrwymo £885m o arian gan y Loteri Genedlaethol i 1,750 o brosiectau i gefnogi'r lleoedd, y casgliadau, y diwylliannau a'r atgofion o'r gorffennol y mae pobl yn eu gwerthfawrogi ac eisiau eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Fe wnaethom hefyd lansio pum menter strategol ac rydym eisoes wedi ymrwymo dros £134m i 89 o grantiau i gefnogi heriau treftadaeth hirdymor. Mae'r buddsoddiad strategol hwn yn helpu i ymwreiddio treftadaeth yng nghynlluniau trefi, dinasoedd ac ardaloedd ar draws y DU; gwella mynediad at ein treftadaeth naturiol, ac ansawdd y dreftadaeth honno; cefnogi treftadaeth ragorol fel addoldai; a mynd i'r afael â heriau cyffredin, ar draws y sector.

Rydym wedi buddsoddi mewn rhaglenni sy'n caniatáu i bobl warchod a mwynhau'r dreftadaeth sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys gweithio gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i gefnogi 19 o Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth sy'n grymuso cymunedau, elusennau a grwpiau treftadaeth i ailddychmygu ac ailbwrpasu eu hadeiladau treftadaeth. Rydym wedi cefnogi sefydliadau gan gynnwys amgueddfeydd a grwpiau natur a arweinir gan wirfoddolwyr i weithio mewn ffyrdd newydd a chynaliadwy, drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'n Cronfa Arloesi Treftadaeth bwrpasol. Ac rydym wedi gweithio gyda chymunedau a busnesau lleol i roi bywyd newydd i dirnodau treftadaeth hoff annwyl drwy ein rhaglen Menter Treftadaeth.

Treftadaeth 2033 - y tair blynedd nesaf

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- buddsoddi cyfanswm o tuag **£1.46bn** mewn treftadaeth
- buddsoddi **dros £130m** mewn mentrau strategol
- buddsoddi **o leiaf £20m** mewn prosiectau sydd â'r nod o ennyn diddordeb pobl ifanc yn y byd treftadaeth
- dwysau buddsoddi yn y **lleoedd sydd ei angen fwyaf**
- gwneud tua **95%** o benderfyniadau grant yn yr ardal neu'r wlad lle mae'r ymgeisydd wedi'i leoli
- parhau i sicrhau bod ariannu ar gael ar gyfer treftadaeth ym **mhob awdurdod lleol** yn y DU

Fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU, sy'n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym mewn sefyllfa unigryw i barhau i helpu pobl i gyrchu treftadaeth ac adrodd eu storïau. Dros y tair blynedd nesaf, bydd tua 95%

o'n penderfyniadau grant yn parhau i gael eu gwneud yn lleol, gan staff a phwyllgorau sydd wedi'u lleoli yn ein tair ardal o Loegr ac ar draws y tair gwlad ddatganoledig. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn mentrau strategol sy'n cefnogi treftadaeth ar raddfa fawr, o adfer tirweddau i ennyn diddordeb pobl ifanc a datblygu sgiliau, nawr ac ar gyfer y dyfodol.

Mae ymgeiswyr, derbynyddion grantiau a phartneriaid wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a symlrwydd Treftadaeth 2033. Ac mae cyhoeddi [ein hadroddiad effaith cyntaf](#) yn dangos bod y prosiectau rydym wedi'u hariannu hyd yma yn cefnogi ein hegwyddorion buddsoddi yn gryf. Rydym yn gwybod bod effaith bwrpasol ar dreftadaeth yn gofyn am ymrwymiad hirdymor, ond eisoes yn y cyfnod cynnar hwn, mae ein hadborth gan randdeiliaid a'n data ar effaith yn rhoi hyder i ni ein bod ar y trywydd iawn, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n pedair blaenoriaeth gyflwyno: arian grant; mentrau strategol; cydweithio a phartneriaethau; ac effaith a gwella.

Wrth i ni adeiladu ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud ers 2023, byddwn yn parhau i fod yn hyblyg, gan ymateb yn gyflym i amgylchiadau allanol sy'n newid a diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau. Yn y cynllun cyflwyno hwn fe welwch dystiolaeth o barhad ac addasu, gan gynnwys:

- cynlluniau ar gyfer buddsoddi pellach yn y lleoedd sydd angen cefnogaeth fwyaf i ddatblygu eu treftadaeth, gan gynnwys ein 15 Treftadle presennol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt
- cefnogaeth ychwanegol a anelir at bobl ifanc i'w helpu i ymgysylltu â threftadaeth ac adeiladu sgiliau hirdymor a fydd yn cefnogi treftadaeth yn y dyfodol
- buddsoddi mewn mynediad a thwf drwy gefnogi prosiectau arloesol sy'n creu cyfleoedd gwirfoddoli, cyflogaeth a hyfforddiant, ac sy'n ailddefnyddio adeiladau hanesyddol
- cymorth i sefydliadau addasu i heriau ansefydlogrwydd byd-eang fel eu bod yn ddigon cydnorth i warchod ein treftadaeth ragorol a'i gwneud yn hygyrch yn y tymor hir

Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi i gyflwyno'r cam nesaf hwn o Treftadaeth 2033.

– Bwrdd Ymddiriedolwyr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Sut rydym yn gweithio

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw gwerthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

I gyflawni hyn, mae ein strategaeth wedi'i hategu gan gynlluniau cyflwyno tair blynedd. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni fod yn hyblyg, addasu i anghenion y sector treftadaeth ac ymateb i ddigwyddiadau a chyfleoedd allanol dros 10 mlynedd Treftadaeth 2033.

Mae'r cynllun cyflwyno hwn yn nodi ein cerrig milltir allweddol a sut y byddwn yn buddsoddi arian y Loteri Genedlaethol ar draws 2026–2029. Caiff ei ddiweddarau'n flynyddol fel rhan o'n prosesau cynllunio busnes.

Ein hegwyddorion buddsoddi

Mae ein pedair [egwyddor fuddsoddi](#) wrth wraidd ein huchelgeisiau ar gyfer treftadaeth ac maent yn sail i'n holl benderfyniadau grant:

- **Achub treftadaeth:** gwarchod a gwerthfawrogi treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol.
- **Diogelu'r amgylchedd:** cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol.
- **Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad:** cefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth.
- **Cynladwyedd sefydliadol:** cryfhau treftadaeth er mwyn iddi addasu a bod yn gydnherth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau.

Rydym yn gofyn i brosiectau a ariannwn gymryd y pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth yn eu ceisiadau.

Ein hymagwedd

Mae'r rhan fwyaf o'n harian Treftadaeth 2033 yn cael ei ddarparu drwy [Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#). Bwriedir iddynt fod yn eang ac yn gynhwysol a gallant gefnogi ystod eang o brosiectau treftadaeth sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau lleol. Ein nod yw gwella ein prosesau ymgeisio a chyflwyno grantiau i gwsmeriaid yn barhaus trwy ymchwil defnyddwyr rheolaidd ac adborth arall.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'r presennol, ac ar draws lleoedd yn ogystal â phrosiectau unigol, rydym hefyd yn buddsoddi mewn:

- **mentrau strategol** sy'n mynd i'r afael â heriau ar raddfa fawr neu draws-diriogaethol, gyda ffocws ar le, tirwedd a natur, treftadaeth mewn angen ac ymateb i gyfleoedd ac argyfyngau
- **partneriaethau** sy'n dwyn ynghyd arbenigedd ac adnoddau, gan greu effaith fwy pwerus a pharhaol

Ein gwerthoedd

Mae ein [gwerthoedd a'n hymddygiadau](#) yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio. Maent wedi'u hymwreiddio ar draws ein cynllunio strategol a busnes a'n dulliau arwain a rheoli:????

- **Cynhwysol** o bob agwedd ar dreftadaeth, pobl a chymunedau.
- **Uchelgeisiol** ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n treftadaeth.
- **Cydweithredol** trwy weithio a dysgu gyda'n gilydd.
- **Ymddiriedir ynom** am ein cyfanrwydd, ein harbenigedd a'n barn.

Rôl Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

[Fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU](#), mae gennym y frainc o fuddsoddi arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiectau ar draws y DU sy'n cysylltu pobl a chymunedau â'u treftadaeth. Rydym yn dyfarnu 20% o'r incwm Achosion Da a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Rydym hefyd yn dosbarthu ariannu treftadaeth sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion buddsoddi ar ran llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig.

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n atebol i Senedd y DU drwy'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r adran hon yn gosod ein [Cyfarwyddiadau polisi](#) ar gyfer y DU ac ar gyfer Lloegr, ac mae gennym hefyd Gyfarwyddiadau polisi gan lywodraethau datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon (mae Cyfarwyddiadau Polisi Gogledd Iwerddon yn aros am gymeradwyaeth weinidogol).

Mae ein penderfyniadau am geisiadau a pholisïau unigol yn gwbl annibynnol o lywodraeth y DU.

Mae gennym dimau a phwyllgorau sy'n gweithio ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae 95% o'n penderfyniadau grant yn cael eu gwneud yn lleol, gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau rydym yn eu hariannu.

Bwrdd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yw ein corff cyfreithiol ar gyfer gweinyddu a goruchwyllo'r holl arian a freinir ynom. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 i weinyddu [Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol](#).

[Yn ôl i'r top](#)

[Nesaf Gosod y cyd-destun](#)

Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029

Gosod y cyd-destun

Y mewnwelediad sy'n siapio ein camau nesaf

Gan alw ar nifer o ffynonellau mewnwelediad a thystiolaeth, rydym wedi myfyrio ar sut rydym yn symud tuag at yr uchelgeisiau a nodir yn Treftadaeth 2033 ar ôl ein tair blynedd gyntaf.

Tystiolaeth o'n heffaith

Mae llawer o'n grantiau'n anelu at gyflawni trawsnewid hirdymor, felly gall gymryd amser i fesur effaith lawn ein buddsoddiad. Ond mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol. [Mae ein hadroddiad effaith cyntaf](#) dyn dangos bod y prosiectau rydym wedi'u cefnogi ar draws tair blynedd gyntaf Treftadaeth 2033 eisoes yn creu buddion ar gyfer pobl, lleoedd a'r amgylchedd. Er enghraifft, gwneud safleoedd treftadaeth yn fwy hygyrch, cysylltu cymunedau â'u tirweddau a'u hanes a chreu cyfleoedd ar gyfer swyddi, rolau gwirfoddoli a hyfforddiant a sgiliau.

Trwy gydol y cynllun cyflwyno tair blynedd hwn, byddwn yn casglu hyd yn oed mwy o ddata i ddangos ein heffaith ar y swyddi, y prentisiaethau a'r cyfleoedd gwirfoddoli y mae ein prosiectau'n eu creu ac am sut y maent yn ennyn diddordeb pobl ifanc, yn cefnogi cymunedau ac yn trawsnewid lleoedd yn y tymor hir.

Adborth gan rhanddeiliaid

Mae mewnwelediadau ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, gan gynnwys ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, hefyd yn ein helpu i ddysgu ac addasu darpariaeth Treftadaeth 2033 wrth i'r dirwedd allanol barhau i newid.

Clywsom gan ein rhanddeiliaid fod Treftadaeth 2033 yn cynnig gweledigaeth gref ac uchelgeisiol ac roeddent yn croesawu eglurder a symlrwydd ein dull buddsoddi. Rydych hefyd wedi dweud wrthym ble rydych am i ni fynd ymhellach i fynd i'r afael â'r heriau y mae treftadaeth yn eu hwynebu, gan gynnwys cryfhau cydnerthedd sefydliadol, cefnogi'r gwaith o addasu i newid hinsawdd a buddsoddi mewn lleoedd er mwyn darparu canlyniadau cadarnhaol i bobl, cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Rydym wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i adeiladu'r partneriaethau sy'n helpu i gael effaith barhaol ar dreftadaeth.

Mewn sgysiaau gydag ymgeiswyr, grantïon a rhanddeiliaid eraill y llynedd, clywsom:

- “Mae gan y Gronfa Treftadaeth ddawn ryfeddol i gyflawni newidiadau strategol, graddadwy na all arianwyr eraill ei wneud.”
- “[Mae'r] dull sy'n seiliedig ar leoedd i'w weld yn gweithio... [mae'r Gronfa Treftadaeth yn] ymwneud yn weithredol â thrafodaethau strategaeth twf a chynnwys treftadaeth a byd natur.”
- “Mae rôl y Gronfa Treftadaeth fel cynullydd wedi bod yn wirioneddol bwysig.”
- “Dylai'r Gronfa Treftadaeth fod yn rhan o sgysiaau oherwydd y persbectif bron yn unigryw sydd ganddynt ar y sector.”

Byd sy'n newid – cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol

Dyluniwyd Treftadaeth 2033 i fod yn uchelgeisiol ac yn hyblyg. Ers i ni lansio'r strategaeth yn 2023, rydym wedi gweld newid parhaus ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol sy'n effeithio ar y bobl, y cymunedau a'r lleoedd rydym yn eu cefnogi.

Wrth lunio'r cynllun cyflwyno hwn, fe wnaethom ystyried:

- **Pwysau ariannol parhaus ond annarogan**, wedi'i symbylu gan amrywiaeth o achosion, o ansefydlogrwydd rhyngwladol i seilwaith sy'n heneiddio, gan arwain at chwyddiant costau a mwy o gystadleuaeth am ariannu.
- **Effaith newid hinsawdd ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol**, a all arwain at ddifrod a/neu newid sylweddol i adeiladau hanesyddol a thirweddau, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig.
- **Cyflymder newid digidol**, gan gynnwys sut mae dysgu peiranyddol a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) yn newid y ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n gilydd, sut mae arianwyr yn gweithio gyda grantïon a sut mae ein grantïon yn gweithio gyda'u hasedau treftadaeth a'u cynulleidfaoedd.
- Symud tuag at fwy o **fuddsoddi sy'n seiliedig ar le a phenderfyniadau a arweinir gan gymunedau yn ogystal ag ailddefnyddio asedau ar gyfer cymunedau**, wedi'i seilio ar dystiolaeth a phrofiad lleol sy'n dangos yr effaith ar newid hirdymor. Mae datblygiadau polisi cenedlaethol, fel rhaglen [Balchder Bro](#) Llywodraeth y DU a datganoli lleol, yn atgyfnerthu'r cyfeiriad hwn.
- Ffocws cynyddol ar **lesiant pobl ifanc** fel y gallant elwa nawr o ymwneud â threftadaeth a chael mynediad cyfartal i ddatblygu sgiliau er mwyn dod yn warcheidwaid treftadaeth yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi adlewyrchu

hyn yn ein [canllaw arfer da plant a phobl ifanc newydd](#), sy'n gweddu i Strategaeth Ieuencid Llywodraeth y DU, [Youth Matters](#).

Cyfrannu at amcanion strategol Llywodraeth y DU

Byddwn yn defnyddio ein sefyllfa unigryw fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU i gefnogi gweledigaeth y Llywodraeth i'r DU fod yn fwy hyderus, lle mae pob cymuned ym mhob man yn teimlo ac yn gweld bod eu bywydau'n gyfoethocach a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi o fewn stori genedlaethol gynhwysol.

I wneud hyn byddwn yn buddsoddi drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn prosiectau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Twf a swyddi da ym mhob lle yr ydym yn buddsoddi ynddo – drwy adfywio strydoedd mawr a chanol trefi, helpu'r sector i lenwi bylchau sgiliau a chefnogi pobl o bob cefndir i ddatblygu gyrfaedd gwerth chweil yn y byd treftadaeth.
- Bywydau cyfoethocach gyda dewisiadau a chyfleoedd i bawb – drwy helpu pobl i siapia hunaniaethau a rennir ar draws cymunedau ac adeiladu balchder bro.
- Gwlad sy'n fwy cydlynol yn gymdeithasol gyda stori genedlaethol gynhwysol – drwy werthfawrogi, gofalu am a chynnal y dreftadaeth sy'n bwysig i bobl mewn cymunedau ym mhob rhan o'r DU.

[Yn ôl i'r top](#)

[Previous Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029](#)

[Nesaf Ein cynllun ar gyfer 2026–2029](#)

Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029

Ein cynllun ar gyfer 2026–2029

Mae ein mewnwelediad, tystiolaeth a'ch adborth chi wedi cadarnhau ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni nodau uchelgeisiol Treftadaeth 2033. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r pedair blaenoriaeth a fydd yn ein helpu i barhau i gyflawni hyn trwy gydol 2026–2029:

- **Arian grant:** cryfhau cydnerthedd a pherthnasedd drwy fuddsoddi.
- **Mentrau strategol:** ysgogi effaith ar raddfa fawr drwy ymyriadau wedi'u targedu.
- **Cydweithio, partneriaethau ac ymgysylltu:** mwyhau effaith drwy weithio gydag eraill.
- **Effaith a gwella:** cyflwyno gyda mewnwelediad ac arloesedd.

Yr hyn y byddwn yn ei fuddsoddi

Rhagwelir mai £1.46 biliwn* fydd cyfanswm buddsoddiad y Loteri Genedlaethol ar draws tair blynedd y cynllun cyflwyno hwn. Byddwn hefyd yn dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri, gan gynnwys gan lywodraethau'r DU, i gefnogi treftadaeth ar draws pob un o'r pedair gwlad.

Mae ein cynlluniau ar gyfer buddsoddi'r arian hwnnw dros y tair blynedd nesaf wedi'u nodi isod. Mae cyllidebau'n ddangosol ar gyfer blwyddyn dau a thri, yn seiliedig ar ragolygon incwm y Loteri Genedlaethol a ddarperir gan weithredwr y Loteri Genedlaethol, Allwyn. Mae rhagolygon yn amodol ar newid ac mae cynlluniau'n cael eu hadolygu'n flynyddol drwy gydol y tair blynedd a'u diweddarau fel y bo angen i fodloni blaenoriaethau strategol.

Rhagamcaniad o gyfanswm y buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol

Ein buddsoddiadau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Cyfanswm
	2026–2027	2027–2028	2028–2029	2026–2029
Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol	£385.5m	£358.9m	£359.2m	£1.1bn
Mentrau strategol	£45m	£45m	£41.9m	£131.9m
Cyllideb hyblyg*	-	-	-	£233m
Cyfanswm cyllideb gan y Loteri Genedlaethol	£430.5m	£403.9m	£401.1m	£1.46bn

*Mae'r gyllideb hyblyg hon yn caniatáu i ni ymateb i anghenion a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg dros y tair blynedd.

Arian grant – cryfhau cydnerthedd a pherthnasedd trwy fuddsoddi

Byddwn yn cefnogi treftadaeth i fod yn fwy cydnerth a pherthnasol i gymunedau ar draws y DU drwy barhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cyflwyno pob un o'n pedair egwyddor fuddsoddi a'r uchelgeisiau a nodir yn Treftadaeth 2033.

Mae penawdau o'r tair blynedd gyntaf yn cynnwys y canlynol:

- dyfarnwyd £885m i 1,750 o brosiectau
- cefnogwyd 4,125 o geisiadau grant trwy'r broses o bontio i gyflwyno Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o dan bedair egwyddor fuddsoddi Treftadaeth 2033 a throthwyon grant newydd
- symleiddwyd ein prosesau ymgeisio, asesu ac ôl-ddyfarnu

Yn y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- denu piblinell gref o brosiectau o bob maint rhwng £10,000 a £10m drwy ein gwaith marchnata ac ymgysylltu, gan fonitro cyfraddau llwyddiant a darparu mynediad teg at ariannu ar draws y DU
- defnyddio ein harian grant i ategu blaenoriaethau DCMS a mentrau a ariennir ar gyfer treftadaeth fel y Gronfa Adfywio Addoldai a'r Gronfa Adfywio Treftadaeth, gan gefnogi buddsoddi strategol mewn lleoedd, asedau a chymunedau
- cefnogi prosiectau trawsdoriadol, strategol sydd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol i'r sector, yn ogystal â phrosiectau sydd wedi'u gwreiddio mewn lleoedd neu fathau penodol o dreftadaeth
- parhau i wella ein prosesau ymgeisio, asesu ac ôl-ddyfarnu

Yn 2026–2029 byddwn yn

Cyfrannu at stori genedlaethol gynhwysol

Blwyddyn 1-3:

- Gweithio gyda theulu'r Loteri Genedlaethol i rannu storïau am y bobl a'r lleoedd ar draws y DU sydd wedi elwa o'n hariannu.
- Dathlu sut mae'r arian a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn helpu diogelu treftadaeth, cryfhau cymunedau a rhoi hwb i greadigrwydd ar draws y DU.

- Cymryd rhan yn weithredol mewn momentau o ddathlu a diolchgarwch DU gyfan, fel Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol, Diwrnod Trysorau Treftadaeth a'r Diwrnod Hunlun Bysedd Croes.

Gwella'r profiad grant

Blwyddyn 1:

- Cyflwyno proses grantiau o'r dechrau i'r diwedd sy'n syml ac yn llyfn.
- Lansio arweiniad newydd i ymgeiswyr sy'n adlewyrchu'n llawn yr egwyddorion buddsoddi a thaith y grant.
- Cyhoeddi arweiniad arfer da newydd am ddigidol a gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Datblygu ein dull ar gyfer ceisiadau strategol sy'n mynd i'r afael ag egwyddorion buddsoddi y tu hwnt i ddaearyddiaethau, sefydliadau neu asedau treftadaeth unigol.

Blwyddyn 2 a 3:

- Gwella ac ymwreiddio'r profiad grant yn barhaus trwy brofi gydag ymgeiswyr a dysgu o arfer gorau.
- Adnewyddu'r arweiniad i ymgeiswyr a'i gadw'n gyfredol trwy adolygu a dysgu'n rheolaidd.

Ysgogi cydnerthedd sefydliadol hirdymor

Blwyddyn 1:

- Cynnal ymchwil ar effaith ein hariannu cyfalaf dros y 5-20 mlynedd diwethaf a sut mae wedi cryfhau cynladwyedd sefydliadau treftadaeth.
- Archwilio'r potensial am adnodd ar-lein i helpu sefydliadau i ddeall eu cydnerthedd.

Blwyddyn 2 a 3:

- Cymhwyso dysgu o'n hymchwil ariannu cyfalaf.
- Posibilrwydd o beilota adnodd ar-lein ac, yn amodol ar ganlyniadau cadarnhaol, ei gyflwyno i bob ymgeisydd a derbynnydd grant.

Rheoli risgiau ein portffolio buddsoddi

Blwyddyn 1:

- Cywain data am yr hyn sy'n symbylu risgiau ariannol a chyflwyno yn ein portffolio buddsoddi er mwyn eu rheoli'n effeithiol.

Blwyddyn 2 a 3:

- Cywain data am yr hyn sy'n symbylu risgiau ariannol a chyflwyno yn ein portffolio buddsoddi er mwyn eu rheoli'n effeithiol.

Mentrau strategol – ysgogi effaith ar raddfa fawr drwy ymyriadau wedi'u targedu

Byddwn yn mynd i'r afael â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr, yn cefnogi dulliau traws-tirogaethol ac yn rhoi syniadau ac arloesiadau newydd ar waith yn gyflym. Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau i nodi cyfleoedd a heriau sy'n dod i'r amlwg ac yn sicrhau bod ein cynllunio cyllidebol yn ddigon hyblyg i ymateb.

Mae penawdau o'r tair blynedd gyntaf yn cynnwys y canlynol:

- ymrwymwyd buddsoddi gwerth dros £380m ar draws 10 mlynedd y strategaeth, gyda £134m eisoes wedi'i ymrwymo i 89 o brosiectau
- lansiodd pum menter strategol i gefnogi lleoedd ffyniannus, adferiad byd natur trefol, cysylltu tirweddau ac ymdrin â'r heriau y mae addoldai ac archifau'n eu hwynebu

Yn y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- buddsoddi o leiaf £130m pellach mewn mentrau strategol
- nodi a thargedu cefnogaeth at treftadaeth mewn angen, gan gynnwys addoldai, llongau hanesyddol a chasgliadau amgueddfeydd
- gweithio gyda DCMS ac arianwyr eraill y Loteri Genedlaethol i gefnogi dinas a thref diwylliant nesaf y DU
- ymwreiddio dysgu o'n buddsoddi mewn mannau gwyrdd trefol a thirweddau ar raddfa fawr a buddsoddi mewn cymorth pellach ar gyfer y mathau hyn o brosiectau
- dwysau buddsoddi yn y lleoedd sydd ei angen fwyaf

Yn 2026–2029 byddwn yn

Lle

Mae ein dull sy'n seiliedig ar le ar draws ein portffolio buddsoddi yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â chyfle treftadaeth ac angen economaidd-gymdeithasol amlwg ymhlith cymunedau lleol. Byddwn yn olrhain ac yn adrodd ar ein buddsoddiad mewn ardaloedd o anfantais ddwbl gydag amddifadedd uchel a diffyg seilwaith gymdeithasol.

Treftadleoedd

Buddsoddi tymor hwy sy'n seiliedig ar leoedd yn targedu ardaloedd, trefi a dinasoedd sydd ag anghenion, cyfleoedd a photensial o ran treftadaeth.

Blwyddyn 1:

- Gweithio gyda'r 15 Treftadle presennol i gynyddu gallu treftadaeth leol i gyfrannu at eu lle, cysylltiad pobl â'u treftadaeth a sicrhau bod prosiectau a ddatblygir yn lleol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol.
- Cryfhau'r berthnasoddd rhwng Treftadleoedd, gan gynnwys o leiaf un cyfarfod rhwydwaith cymheiriaid wyneb yn wyneb, fel y gallant rannu mewnwelediad ac adeiladu arbenigedd ar y cyd.
- Cyhoeddi ail gam yr asesiad annibynnol o Dreftadleoedd.

Blwyddyn 2 a 3:

- Dwysau a chynnal yr effaith ar gyfer y 15 Treftadle drwy ymgysylltu parhaus, gan gefnogi buddsoddi hirdymor ac adeiladu capasiti lleol.
- Cryfhau cysylltiadau rhwng Treftadleoedd drwy gefnogi eu rhwydwaith cymheiriaid a gwerthuso ar y cyd.
- Cyhoeddi gwaith gwerthuso ac ymchwil sy'n cryfhau dealltwriaeth ehangach o fuddsoddi effeithiol mewn treftadaeth sy'n seiliedig ar le.

Trefi a Dinasoedd Natur

Partneriaeth sy'n darparu cefnogaeth ac ariannu i wella ansawdd mannau gwyrdd trefol, a mynediad atynt.

Blwyddyn 1:

- Parhau i weithio gyda'r 19 tref a dinas sydd wedi'u hariannu er mwyn adeiladu gallu lleol i roi natur wrth wraidd eu ffordd o feddwl ar gyfer y dyfodol ac i ganiatáu i bawb gael mynediad at fyd natur yn agos at eu cartref.
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Natural England a chwaer-asiantaethau natur yn y gwledydd eraill i ehangu'r fenter a chreu rhwydwaith dysgu sy'n cysylltu ac yn dylanwadu ar draws y DU.

Blwyddyn 2 a 3:

- Orlhain y ddarpariaeth yn y 19 tref a dinas a ariannwyd a monitro'r effaith.
- Rhannu dysgu ar draws y garfan o brosiectau, gan ddefnyddio mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg i gryfhau'r ddarpariaeth a llywio buddsoddiadau newid systemau strategol eraill tebyg.
- Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i dyfu a siapia cyfeiriad parhaus Trefi a Dinasoedd Natur.

Cysylltiadau Tirwedd

Helpu tirweddau o'r radd flaenaf ar draws y DU i ddod yn well ar gyfer byd natur a phobl.

Blwyddyn 1:

- Adeiladu ar y buddsoddiad presennol mewn 13 o dirweddau gwarchodedig dynodedig.
- Targedu ymgysylltiad â phartneriaid mewn tirweddau sydd â llai o adnoddau ond â'r angen mwyaf, er mwyn sicrhau bod ariannu ar gael i bawb.
- Cefnogi dysgu gan gymheiriaid ar draws prosiectau ac annog dulliau cydweithredol.
- Sefydlu fframwaith gwerthuso, casglu data a methodoleg ar gyfer monitro newidiadau mewn tirweddau.

Blwyddyn 2 a 3:

- Tyfu a chryfhau ein buddsoddiad mewn tirweddau gwarchodedig, gan gynyddu nifer y prosiectau a sicrhau cyrhaeddiad ar draws y DU.
- Cefnogi'r garfan o brosiectau tirwedd, gan alluogi trosglwyddo gwybodaeth o'r prosiectau mwyaf sefydledig i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.
- Cefnogi dulliau casglu data ar gyfer monitro a gwerthuso, gan gymhwysu dysgu cynnar i fireinio'r dull hirdymor.

Treftadaeth mewn Angen

Achub treftadaeth mewn angen a mynd i'r afael â heriau'r sector, a hynny wedi'i lywio gan dystiolaeth gan bartneriaid a chymunedau.

Addoldai

Buddsoddi mewn prosiectau sydd ag effaith strategol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol ar gyfer addoldai.

Blwyddyn 1:

- Parhau i gefnogi mwy o addoldai drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- Gwerthuso prosiectau strategol presennol i ddeall eu heffaith.
- Rhannu'r hyn a ddysgir a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth sy'n dod i'r amlwg o'n gwerthusiad.

Blwyddyn 2 a 3:

- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector i nodi cyfleoedd ychwanegol ar gyfer buddsoddi strategol mewn addoldai.
- Parhau i gefnogi mwy o geisiadau llwyddiannus ar gyfer addoldai drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Llongau Hanesyddol

Cryfhau cydnherthedd ar draws y sector llongau hanesyddol.

Blwyddyn 1:

- Cefnogi Llongau Hanesyddol Cenedlaethol y DU i sefydlu fframwaith cenedlaethol clir ar gyfer blaenoriaethu risg ac arwyddocâd ar draws y sector llongau hanesyddol.

Blwyddyn 2 a 3:

- Buddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu cefnogaeth gydlynol DU gyfan drwy wella mynediad at arbenigedd a sgiliau a thargeddu ariannu i leihau risg a chryfhau cydnherthedd yn y sector llongau hanesyddol.

Casgliadau Amgueddfeydd a Chydnerthedd

Maes ffocws newydd ar gyfer Treftadaeth mewn Angen, gan gydnabod y pwysau penodol ar amgueddfeydd y DU a'u casgliadau.

Blwyddyn 1:

- Cyhoeddi ymchwil i gasgliadau amgueddfeydd a chydnerthedd.
- Datblygu ymyriad wedi'i dargedu, i'w gyflwyno mewn cydweithrediad â sefydliadau cefnogi'r sector, sy'n adlewyrchu'r Strategaeth Amgueddfeydd newydd arfaethedig yn Lloegr, ochr yn ochr â blaenoriaethau'r sector yn y gwledydd datganoledig.

Blwyddyn 2 a 3:

- Gweithio gyda phartneriaid sector ar draws y DU i gyflwyno ymyriadau i gefnogi rheoli casgliadau a chydnerthedd hirdymor.
- Ymwreiddio dysgu i gefnogi cydnherthedd hirdymor y sector.

Caffaeliadau, cyfleoedd ac argyfyngau

Byddwn yn ystyried sut i gefnogi sector archifau'r DU, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o Archives Revealed, ein prosiect cyfredol gyda'r Archifau Cenedlaethol, Ymddiriedolaeth Pilgrim a Sefydliad Wolfson.

Byddwn yn parhau i fod ar gael i ymateb i anghenion neu gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Tref Diwylliant y DU (2028) a Dinas Diwylliant y DU (2029)

Blwyddyn 1-3:

- Cefnogi Tref Diwylliant a Dinas Diwylliant y DU llwyddiannus gyda cheisiadau am grantiau treftadaeth, datblygu a chyflwyno prosiectau.

Partneriaeth, cydweithio ac ymgysylltu – gan fwyhau effaith drwy weithio gydag eraill

Byddwn yn gweithio drwy bartneriaethau a rhwydweithiau ehangach sy'n fuddiol i dreftadaeth ac yn darparu mwy o werth i bobl, cymunedau a lleoedd drwy ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol ac ymateb iddynt.

Mae penawdau'r tair blynedd gyntaf yn cynnwys y canlynol:

- dosbarthwyd dros £63m o ariannu gan lywodraeth mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), DCMS a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
 - creu ac adfer cynefinoedd sy'n doreth o fywyd gwyllt yn Lloegr (Species Survival Fund, Defra)
 - cryfhau cydnerthedd safleoedd tir a morol gwarchodedig yng Nghymru (Cronfa Rhwydweithiau Natur, Llywodraeth Cymru)
- cefnogwyd dulliau partneriaeth arloesol gan gynnwys ymrwymo £31m i brosiectau Menter Treftadaeth, gan roi bywyd newydd i safleoedd hanesyddol sydd wedi'u hesgeuluso
- buddsoddwyd mewn mwy na 90 o brosiectau drwy grantiau cymunedol, gan ganiatáu cefnogaeth wedi'i thargedu at sefydliadau llai, ar lawr gwlad ar lefel leol
- lansiwyd cam olaf ein Cronfa Arloesi Treftadaeth, gan ddyfarnu £2.9m i 13 o sefydliadau i ddatblygu datrysiadau arloesol ar gyfer materion gweithlu

Yn y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- blaenoriaethu ymyriadau gyda phartneriaid i fuddsoddi mewn prosiectau treftadaeth sy'n cefnogi cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc, datblygu sgiliau treftadaeth, gwella cynaliadwyedd ariannol a dyfnhau arbenigedd a dealltwriaeth o risg yr hinsawdd i dreftadaeth
- cefnogi ac annog cyd-ddylunio prosiectau treftadaeth sy'n diwallu anghenion lleol a chymunedol

- datblygu partneriaethau strategol i gyflwyno modelau newydd, fel cyd-greu cyfleoedd ariannu a grantiau dirprwyedig
- cryfhau gwaith ar y cyd â'r llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol ac, yn Lloegr, awdurdodau strategol maerol yn ogystal â Dosbarthwyr Loteri eraill

Yn 2026–2029 byddwn yn

Cymorth i blant a phobl ifanc

Buddsoddi o leiaf £20 miliwn mewn prosiectau sydd wedi'u targedu at bobl ifanc, gan gydnabod eu rôl hanfodol wrth siapia a chynnal dyfodol treftadaeth.

Blwyddyn 1:

- Datblygu ein dull o fuddsoddi mewn treftadaeth i bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar fwyafu cyfleoedd ac effaith.
- Archwilio partneriaethau rhwng sefydliadau treftadaeth ac o leiaf un sefydliad sy'n arbenigo mewn cyrraedd pobl ifanc ym mhob un o Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Nodi ffyrdd o greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc o fewn prosiectau Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Blwyddyn 2 a 3:

- Cefnogi partneriaethau i wneud ceisiadau llwyddiannus, gan arwain at o leiaf un prosiect mawr yn canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n cael ei ddatblygu neu ei gyflwyno ym mhob un o Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Orlhain nifer y prosiectau a ariennir gan Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n ymgysylltu â phobl ifanc.
- Sefydlu carfanau i greu cyfleoedd o ansawdd uchel ar raddfa fawr i blant a phobl ifanc, gan flaenoriaethu'r rhai sydd leiaf tebygol o ymgysylltu.

Datblygu sgiliau'r sector

Cydweithio ag eraill i ddiwallu anghenion sgiliau'r sector.

Blwyddyn 1:

- Yn dilyn adolygiad o dirwedd sgiliau'r DU, byddwn yn nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â heriau parhaus, gan asesu lle nad ydym yn derbyn ceisiadau a deall yn well y cyfleoedd i bartneru ar ymyriadau strategol.

Blwyddyn 2 a 3:

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a lansio ymyriadau peilot sy'n profi ffyrdd o fynd i'r afael â bylchau a meithrin sgiliau ar draws y sector treftadaeth.

Ysgogi adfywio a arweinir gan dreftadaeth

Datgloi potensial asedau treftadaeth i sbarduno adfywio economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Blwyddyn 1:

- Adnewyddu ac ail-lansio ein grantiau Menter Treftadaeth, gan weithio gyda sefydliadau treftadaeth entrepreneuriaidd a phartneriaid masnachol i ddod ag asedau treftadaeth yn ôl i ddefnydd.

Blwyddyn 2 a 3:

- Hyrwyddo, monitro a gwella'r defnydd o Fenter Dreftadaeth ochr yn ochr â mathau eraill o gefnogaeth, fel buddsoddi cymdeithasol.

Cryfhau offer buddsoddi cymdeithasol

Archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaethau buddsoddi cymdeithasol pellach sydd o fudd i dreftadaeth.

Blwyddyn 1:

- Parhau i bartneru mewn cronfeydd buddsoddi cymdeithasol, gan gynnwys Cronfa Buddsoddi'r Celfyddydau a Diwylliant a'r Gronfa Effaith Treftadaeth.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaethau cyllid amgen pellach sydd o fudd i dreftadaeth.

Blwyddyn 2 a 3:

- Cynnal, cynyddu a datblygu cyfleoedd buddsoddi cymdeithasol a chyllid amgen newydd.

Rhaglenni partneriaeth nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri:

Ffynhonnell ariannu	Rhaglenni ariannu	Gweithgarwch yn 2026–2029:
Rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth â Defra	Species Survival Fund*	Prosiectau'n cael eu cyflwyno a'u monitro. Mae'r rhaglen yn cau yn 2026–2027.

Ffynhonnell ariannu Rhaglenni ariannu Gweithgarwch yn 2026–2029:

Rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru	Cronfa Rhwydweithiau Natur Lleoedd Lleol ar gyfer Natur*^ Y Grant Buddsoddi mewn Coetir*^??	Mae £10m o ariannu ar gael ar gyfer 2026–2027. Mae'r rhaglen yn cau yn 2026–2027. Yn y cam monitro.
Rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth â DCMS	?Ariannu cofebion rhyfel?	Mae £2m o ariannu ar gael. Manylion i'w cyhoeddi yn 2026–2027.

Efallai y bydd mwy o gyfleoedd ymhen amser i weithio mewn partneriaeth â llywodraethau i helpu cyflwyno uchelgeisiau ein strategaeth. Mae pob rhaglen ariannu newydd yn amodol ar gydsyniad ein tîm Gweithredol i'r achos busnes.

*Mae rhaglenni wedi dyfarnu'r grantiau sydd ar gael ac mae'r prosiectau'n cael eu cyflwyno.

^Rhaglenni a ariennir yn rhannol gan y Loteri Genedlaethol.

Effaith a gwella – cyflwyno gyda mewnwelediad ac arloesedd

Byddwn yn cryfhau darpariaeth weithredol, gan sicrhau systemau effeithlon ac effeithiol a gwella mesur effaith Treftadaeth 2033.

Mae penawdau'r tair blynedd gyntaf yn cynnwys y canlynol:

- gwellwyd ein systemau mewnol ac allanol, gan gynnwys ein system ymgeisio am grantiau, i helpu ymgeiswyr i lywio proses gliriach a symlach
- cyflwynwyd fframwaith newydd i werthuso ac asesu effaith Treftadaeth 2033 dros ei 10 mlynedd
- cwmpaswyd dulliau arloesol o gefnogi ymgeiswyr, y sector a chapasiti sefydliadol drwy fuddsoddi mewn deallusrwydd artifisial (AI) ac uwchsgilio ein gweithlu

Yn y tair blynedd nesaf byddwn yn:

- Adeiladu mewnwelediad dyfnach i'r hyn sy'n sbarduno effaith hirdymor yn sgil buddsoddiad y Loteri Genedlaethol drwy gasglu data a gwerthuso prosiectau mewn ffordd fwy doeth a chymesur

- Buddsoddi mewn offer digidol ac AI a hyfforddiant i wella profiad ein cwsmeriaid a chefnogi'r sector
- anelu at leihau effaith amgylcheddol ein buddsoddiad mewn treftadaeth
- Darparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth sy'n datblygu sector treftadaeth amrywiol, trwy raglenni gan gynnwys Arweinwyr Treftadaeth y Dyfodol, Cymrodoriaeth Windsor a Change100

Yn 2026–2029 byddwn yn

Mesur ein heffaith

Datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein fframwaith effaith.

Blwyddyn 1:

- Cyflwyno pwyntiau casglu data newydd i daith y grant.
- Adolygu a mabwysiadu dulliau o fesur effaith economaidd, gan alinio â rhaglen Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth DCMS.
- Cynnal adolygiadau manwl o brosiectau cyfalaf mawr dethol o bob cwr o'r DU i ddeall eu heriau, eu cyflawniadau a'u heffaith hirdymor.
- Cyflwyno dull newydd o werthuso prosiectau.

Blwyddyn 2 a 3:

- Sicrhau bod casglu data wedi'i ymwreiddio'n llawn yn y broses grantiau er mwyn i ni gofnodi'r mewnwelediadau cywir ar bob cam.
- Gweithredu dull newydd o werthuso prosiectau ar gyfer grantïon, gyda dilyn i fyny hirdymor ar brosiectau allweddol i olrhain effaith dros amser.
- Cyhoeddi adroddiad effaith llawn ym mlwyddyn tri.

Trawsnewid ein gwasanaethau a'n seilwaith

Buddsoddi mewn trawsnewid digidol i wella profiad y cwsmer.

Blwyddyn 1:

- Datblygu Bwrdd Rhaglen Technoleg mewnol i oruchwylio ein map digidol ac AI.
- Cymeradwyo cynllun gweithredu tair blynedd ar gyfer treialu a mabwysiadu AI gan gynnwys nodi lle y gall AI wella'r profiad i ymgeiswyr a grantiau.
- Comisiynu arbenigedd AI allanol i'n cefnogi ni a chryfhau gallu ar draws y sector treftadaeth.

Blwyddyn 2 a 3:

- Darparu uwchraddiadau technoleg sy'n cefnogi Treftadaeth 2033 ac yn symleiddio ein prosesau gweithredol ac ariannu.
- Peilota offer a bwerir gan AI i wella cynhyrchiant a gwella'r broses grantiau, gan rannu mewnwelediadau a'r hyn a ddysgir gyda'r sector treftadaeth a'r sector gwneud grantiau ehangach.

Effaith amgylcheddol

Lleihau effaith amgylcheddol negyddol ac ôl troed carbon ein buddsoddiad mewn treftadaeth a chefnogi'r sector treftadaeth i addasu i newid hinsawdd.

Blwyddyn 1:

- Gwella ansawdd y data a ddefnyddir i amcangyfrif ôl troed carbon ein buddsoddiadau er mwyn llywio'r camau nesaf wrth wella ac esblygu'r dull o fesur ein portffolio ariannu.
- Peilota dulliau o wella sut rydym yn casglu data amgylcheddol ar ddiwedd prosiectau.
- Eirioli a hyrwyddo'r gefnogaeth ar gyfer addasu i'r hinsawdd sydd ar gael drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Blwyddyn 2 a 3:

- Gweithredu cynllun i wella a diweddarau cywirdeb ein dull o fesur ôl troed carbon. Nodi mewnwelediadau a bylchau.
- Mesur cynnydd tuag at gasglu data amgylcheddol strwythuredig ar ein gweithgarwch a'n hallbynnau ariannu.
- Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i lywio ymgysylltiad a datblygiad prosiectau er mwyn lleihau effaith amgylcheddol negyddol yn weithredol.
- Gweithio gyda phartneriaid i rannu arfer gorau a chefnogi sefydliadau treftadaeth i gynllunio'n well ar gyfer newid hinsawdd ac addasu iddo.

Incwm a chostau

Rydym yn dyfarnu 20% o incwm achosion da'r Loteri Genedlaethol ac yn gosod ein cyllidebau buddsoddi bob blwyddyn yn seiliedig ar y swm a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar draws y DU. Ar unrhyw adeg, rydym yn monitro dros 2,000 o brosiectau byw, fel yr amlinellir yn y cronfeydd arian parod wrth gefn a'r rhwymedigaethau yn ein cyfrifon ariannol.

At hynny, rydym yn derbyn incwm blynyddol o £5.3m gan lywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sef £5.2m ar gyfer grantiau a £0.1m ar gyfer costau gweinyddu). Efallai y byddwn hefyd yn derbyn incwm gan lywodraethau a chyrrff eraill fel DCMS, Defra, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru i ddosbarthu grantiau.

Ar draws 2026–2029, ein nod yw buddsoddi dros £1.46bn drwy bortffolio o Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, mentrau strategol a phartneriaethau.

Buddsoddi rhagamcanol ar gyfer 2026–2029	2027–2028 2028–2029			Cyfanswm
	2026–2027			
Incwm gan y Loteri Genedlaethol	£379m	£498.2m	£546m	£1.42bn
Costau gweithredu	£29.4m	£38.6m	£42.3m	£110.3m
Cydbwyso cymarebau buddsoddi*	£155.1m	Dim byd	Dim byd	£155.1m
Cyfanswm sydd ar gael o ran buddsoddiad y Loteri Genedlaethol	£504.7m	£459.6m	£503.7m	£1.46bn

Mae cyfanswm costau gweithredu'r Loteri Genedlaethol wedi'u pennu gan DCMS ac ni ddylent fod yn fwy na 7.75% o incwm blynyddol gan y Loteri Genedlaethol dros gyfnod treigl o dair blynedd. Rydym yn gweithredu'n gyson o fewn y trothwy hwn.

*Mae newid yng nghyfanswm y buddsoddiad i gymhareb balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, a gytunwyd gan ein Bwrdd ym mis Rhagfyr 2023, wedi caniatáu ar gyfer ymrwymadau ychwanegol dros y cyfnod cynllunio hwn.

[Yn ôl i'r top](#)

[Previous](#) [Gosod y cyd-destun](#)

[Nesaf](#) [Llywodraethu](#)

Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029

Llywodraethu

Y Bwrdd, pwyllgorau a gwneud penderfyniadau

Rydym wedi'n llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n arwain ar ddatblygu strategaeth, gyda'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ariannu terfynol ar geisiadau grant dros £5m ac yn cadw cyllideb fuddsoddi ganolog ar gyfer mentrau strategol a rhaglenni DU gyfan, gan alw ar arbenigedd ac argymhellion lleol ein staff a phwyllgorau ardal a gwlad.

Mae gennym [chwe phwyllgor gwneud grantiau](#) – yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac mewn tair ardal yn Lloegr (Gogledd Lloegr, Canolbarth a Dwyrain Lloegr, Llundain a De Lloegr) – sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau am grantiau rhwng £250,000 a £5m. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys pobl leol sy'n angerddol dros y dreftadaeth yn eu hardal, wedi'u penodi trwy recriwtio agored a chystadleuol, sydd gyda'i gilydd yn dod ag amrywiaeth eang o arbenigedd a mewnwleidiad i'n prosesau dyfarnu grantiau. Mae ein Harweinwyr Treftadaeth y Dyfodol, oedolion ifanc 18–30 oed sy'n dod â safbwyntiau newydd i'n prosesau gwneud penderfyniadau, bellach yn ymuno â'r pwyllgorau. Ynghyd â dyfarniadau a wneir gan ein Penaethiaid Buddsoddi ar grantiau o dan £250,000, mae hyn yn golygu bod pwyllgorau a staff ardal a gwlad yn cyfrif am 95% o'n holl benderfyniadau ariannu. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ein prosesau gwneud grantiau wedi'u llywio gan arbenigedd treftadaeth, gwybodaeth leol a'u bod yn gysylltiedig ac yn ymatebol i'r lleoedd a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi.

Rydym yn cadw 'swm gwlad wrth gefn' i Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer grantiau na ellir darparu ar eu cyfer mewn cyllidebau per capita dirprwyedig.

Wedi'u dyrannu ar sail per capita, mae pwyllgorau dyfarnu grantiau'n derbyn y canrannau canlynol o gyllidebau dirprwyedig:

Pwyllgorau ardal/gwlad	Cyfran o'r gyllideb ddirprwyedig
Lloegr, Llundain a'r De	35%
Lloegr – Canolbarth a Dwyrain	25.2%
Lloegr, Gogledd	23.7%
Yr Alban	8.4%
Cymru	4.8%
Gogledd Iwerddon	2.9%

Mae'r [prosesau ar gyfer ymgeisio, gwneud penderfyniadau a monitro grantiau](#) wedi'u nodi ar ein gwefan.

Tryloywder

Rydym yn cydnabod ein rhwymedigaethau i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a threthdalwyr wrth esbonio sut rydym yn defnyddio eu harian, gan weithio mewn cydymffurfiaeth â deddfau perthnasol a'n [dogfen fframwaith](#) gyda DCMS.

Fel corff sy'n wynebu'r cyhoedd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd a'i bod yn hawdd ei deall. [Gweler adran Tryloywder ein gwefan](#) am fwy o fanylion.

Rheoli risgiau

Mae ein cofrestr risgiau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan ein tîm Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ein hawydd am risg yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd unwaith y flwyddyn.

Crynhair isod ein prif risgiau a'r lliniariadau ar gyfer 2026–2029 (fel y'u cyhoeddwyd yn haf 2026).

Risgiau strategol

Gweithrediad y strategaeth yn arafach na'r disgwyl neu'n methu â chyflwyno yn erbyn y pedair egwyddor buddsoddi

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Hyfforddiant parhaus i staff i sicrhau cysondeb ar draws y DU, sy'n cael ei ddiwygio a'i adnewyddu.
- Adolygiad rheolaidd o'n rhaglen gwella'r Gwasanaeth Rheoli Buddsoddiadau ar-lein.
- Monitro i ba raddau y mae prosiectau a ariennir yn bodloni ein hegwyddorion buddsoddi drwy ddadansoddi data o geisiadau a grantiau.

Data, mewnwelediad ac arbenigedd annigonol i olrhain a deall effaith strategol Treftadaeth 2033.

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Gweithredu'r fframwaith effaith i fesur ac ymateb i dystiolaeth o'n heffaith.
- Gwneud newidiadau i daith y grant o'r dechrau i'r diwedd fel y bo angen i gefnogi casglu data cyson o ansawdd uchel am effaith ym mhob cam.

Effaith ar ein piblinell ariannu os bydd prosiectau presennol yn wynebu problemau mawr neu'n methu, neu os na chyflwynir ceisiadau newydd oherwydd risgiau economaidd.

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Monitro prosiectau'n weithredol yn unol â'n harweiniad drwy adeiladu perthnasoedd â grantïon i nodi problemau'n gynnar.
- Defnydd wedi'i dargedu o arbenigwyr allanol i lywio penderfyniadau grant yn well.
- Gwell ddealltwriaeth gan aseswyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r dirwedd ariannu a risgiau prosiectau unigol.
- Cefnogaeth i sefydliadau sy'n cyflawni prosiectau cydnerthedd cyn dechrau buddsoddiadau sylweddol.

Risgiau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol

Mae anwadaliad yn yr amgylchedd allanol yn arwain at wahanol flaenoriaethau ariannu a pholisi ar gyfer y sector treftadaeth.

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Cydweithio ac aliniad agos â chyrff hyd braich eraill ym maes treftadaeth a diwylliant a dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol.
- Perthnasoedd cryf â DCMS, Whitehall, llywodraethau datganoledig, awdurdodau strategol maerol, y sector llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill.
- Mesur a chyfleu effaith ein buddsoddiad mewn treftadaeth.

Mae gostyngiad materol parhaus yn incwm y Loteri Genedlaethol yn golygu na allwn ariannu prosiectau allweddol i gyflwyno ein strategaeth.

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Monitro rhagolygon incwm yn rheolaidd.
- Gweithio ar y cyd ag Allwyn ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol i gryfhau marchnata achosion da.
- Monitro cynnydd prosiectau'n agos.
- Cynllunio senarios ar gyfer ystod o opsiynau ariannol.

Risgiau gweithredol

Mae methu â denu a chadw gweithlu amrywiol a medrus yn arwain at leihad mewn gwybodaeth allweddol ac yn lleihau darpariaeth, gallu ac effeithiolrwydd.

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Cyfleoedd hyfforddi a dysgu i staff.
- Cynnig cryf i weithwyr i gynorthwyo recriwtio a chadw.
- Adrodd a meincnodi demograffeg allweddol y gweithlu.

Methiant parhaus sylweddol o systemau neu swyddogaethau neu gyfaddawdu diogelwch data.

Sut y byddwn yn rheoli hyn:

- Mesurau rheoli mynediad ataliol ac offer datgelu.
- Meddalwedd monitro ac adrodd.
- Cynlluniau parhad busnes a digwyddiadau critigol yn eu lle.
- Gwahanu systemau, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff.
- Diogelwch data a pholisïau yn eu lle ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

[Yn ôl i'r top](#)

[Previous Ein cynllun ar gyfer 2026–2029](#)

[Nesaf Effaith a pherfformiad](#)

Cynllun cyflwyno Treftadaeth 2033: 2026–2029

Effaith a pherfformiad

Tystiolaeth o'n heffaith

Mae [Treftadaeth 2033](#) yn disgrifio'r newidiadau rydym am eu cyflawni erbyn 2033 ar draws ein pedair egwyddor fuddsoddi.

Rydym wedi ymrwymo i ddeall ein heffaith er mwyn i ni allu dangos cynnydd tuag at ein gweledigaeth ar gyfer treftadaeth ac addasu i heriau a chyfleoedd yn ystod bywyd 10 mlynedd y strategaeth. Mae ein fframwaith effaith yn ein helpu i fesur a chasglu tystiolaeth am y gwahaniaeth y mae ein hariannu'n ei wneud.

Mae'r fframwaith yn gwerthuso effaith ar falchder ym mhob man, treftadaeth a adfywiodd a'r economi, wedi'u cysylltu â'n pedwar egwyddor fuddsoddi:

- Mae'r fframwaith yn gwerthuso yn erbyn y datganiadau effaith canlynol, sy'n gysylltiedig â'n pedair egwyddor fuddsoddi:
- mae treftadaeth yn cael ei hadfywio ac mae ei chyflwr wedi'i wella
- mae treftadaeth naturiol yn cael ei adfer
- gall mwy o bobl gyrchu a chysylltu â threftadaeth
- mae sefydliadau a ariannwn yn fwy medrus ac yn gadarn yn ariannol

Byddwn yn parhau i gyflwyno mesurau ansoddol a meintiol er mwyn deall a ydym yn cyflwyno yn erbyn pob un o'r datganiadau hyn ac yn adrodd ac ymateb fel y bo'n briodol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn dangos sut mae buddsoddiad y Loteri Genedlaethol yn cael effaith ar falchder bro, treftadaeth wedi'i hadfywio a'r economi. Bydd [tystiolaeth ac adroddiadau ar ein heffaith](#) yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn adolygu ein gwaith mewn perthynas â chyfarwyddiadau Polisi ar gyfer y DU, Lloegr a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mesur ein perfformiad

Byddwn yn adrodd i'n hadran noddi, DCMS, ar ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) sy'n gysylltiedig â strategaeth DCMS ac sy'n eistedd ochr yn ochr â'n fframwaith effaith Treftadaeth 2033 ac adrodd gweithredol mewnol. Y DPA hynny yw:

- Gostyngiad mewn asedau treftadaeth yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o ganlyniad uniongyrchol i fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth.
- Cyfran y ceisiadau a) o dan £250,000 a b) dros £250,000 sy'n cael eu prosesu o fewn ein hamserlenni cyhoeddedig.
- Cyfran y cyhoedd yn Lloegr sy'n ymgysylltu â threftadaeth, amgueddfeydd ac orielau.
- Nifer y gwirfoddolwyr a gefnogir yn uniongyrchol drwy fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth.
- Nifer y a) swyddi a b) prentisiaethau newydd a gefnogir yn uniongyrchol o ganlyniad i fuddsoddiad gan y Gronfa Treftadaeth.
- Cyfran y dyfarniadau ac ariannu i'r 20% o ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yn y DU.
- Cyfran y dyfarniadau ac ariannu i'r 20% o ardaloedd awdurdod lleol sydd fwyaf 'dan anfantais ddwbl' yn Lloegr.
- Nifer y prosiectau a gefnogir gan y Gronfa Treftadaeth sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc.
- Cyfran yr awdurdodau lleol a ariannwyd gan y Gronfa Treftadaeth (o dan Treftadaeth 2033).

Ein safonau gwasanaeth

Rydym wedi gosod targedau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i'n hymgeiswyr a'n grantion.

Penderfyniadau ar geisiadau

Fel arfer, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y cyfarfod penderfyniadau nesaf ar ôl yr asesiad fel a ganlyn –

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol dros £250,000:

- Ymateb i Fynegiad o Ddiddordeb: 20 diwrnod
- Cais am grant datblygu/cyflwyno: 12 wythnos

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hyd at £250,000:

- o adeg cyflwyno'r cais: wyth wythnos

Taliadau grant

Bydd taliadau grant yn cael ei wneud i'r granti o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais am daliad.

[Archwiliwch ein cynllun dosbarthu blaenorol ar gyfer 2023–2026.](#)

[Yn ôl i'r top](#)

[Previous Llywodraethu](#)
